# Siart Lif 2: **Cymorthdaliadau – a ydw i'n dyfarnu mewn modd sy'n cydymffurfio?**

Os ydych chi'n darparu cymhorthdal i fenter mae'n hanfodol eich bod yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â rheolau rheoli cymorthdaliadau'r DU. Bydd y siart lif hon yn helpu i bennu'r opsiwn gorau ichi er mwyn cydymffurfio.

| Cwestiwn | | Canlyniad |
|---|---|---|
| A yw'r cymorth dw i'n ei ddarparu yn gymhorthdal? Os ydych yn ansicr, gweithiwch drwy 'Siart Lif 1: Darparu Cymorth – a ydw i'n dyfarnu cymhorthdal?' | **Nac ydy** → | Ewch ymlaen gyda'ch cymorth, gallwch gael eich herio o hyd felly cadwch yr holl dystiolaeth sy'n cefnogi pam eich bod yn credu nad yw'n gymhorthdal ar ffeil. |
| ↓ | | |
| A yw'r cymhorthdal mewn sector 'sensitif' neu'n destun amodau arbennig? Gellir gweld rhestr isod. | **Ydy** → | Gall darparu cymhorthdal mewn sector 'sensitif' neu gymhorthdal sy'n destun amodau arbennig olygu bod yna ofynion asesu, adrodd a chraffu ychwanegol neu gall hyd yn oed fod yn anghyfreithlon; cysylltwch â'r Tîm Rheoli Cymorthdaliadau. |
| ↓ | | |
| A yw'r cymhorthdal ar gyfer 'gwasanaeth o fudd economaidd cyhoeddus' (SPEI)? Gellir gweld diffiniad o SPEI isod. | **Ydy** → | Cwblhewch 'Siart Lif 3 – Cymorthdaliadau Gwasanaethau o Fudd Economaidd Cyhoeddus (SPEI)'. |
| ↓ | | |
| A yw gwerth y cymhorthdal yn llai na £315,000? | **Ydy** → | Efallai y bydd yn bosibl ei ddyfarnu fel 'Cymorth Ariannol Lleiaf', cwblhewch 'Siart Lif 4 – Cymorthdaliadau Cymorth Ariannol Lleiaf'. Os nad yw hyn yn berthnasol, parhewch gyda'r siart lif hon. |
| ↓ | | |
| A yw'r cymhorthdal ar gyfer unrhyw un o'r gweithgareddau canlynol?<br>• Twf Lleol<br>• Defnydd Ynni<br>• Ymchwil, Datblygu ac Arloesi | **Ydy** → | Gall fod yn bosibl ei ddyfarnu drwy 'Lwybr Cymhorthdal Symlach'; cysylltwch â'r Uned Rheoli Cymorthdaliadau i drafod y broses. |
| ↓ | | |
| A yw gwerth y cymhorthdal yn llai nag £1 miliwn? | **Ydy** → | Bydd angen ichi asesu eich cymorth yn erbyn yr egwyddorion rheoli cymorthdaliadau, adolygwch y **Canllawiau Statudol ar Gyfundrefn Rheoli Cymorthdaliadau'r DU** gan Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS). |
| ↓ | | |
| A yw gwerth y cymhorthdal rhwng £1 miliwn a £10 miliwn? (£5 miliwn mewn sectorau 'sensitif')? | **Ydy** → | Mae'r cymorth o bosibl yn 'Gymhorthdal o Ddiddordeb'; bydd angen ichi gysylltu â'r Uned Rheoli Cymorthdaliadau i drafod yr opsiwn o'i gyfeirio at yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau yn yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) i'w ystyried. |
| ↓ | | |
| A yw gwerth y cymhorthdal dros £10 miliwn (£5 miliwn mewn sectorau 'sensitif')? | **Ydy** → | Mae'n debygol o fod yn 'Gymhorthdal o Ddiddordeb Penodol'; bydd angen ichi gysylltu â'r Uned Rheoli Cymorthdaliadau i ddechrau cyfeirio eich cymorth at yr Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau yn y CMA i'w ystyried. |

Cofiwch: os oes gennych unrhyw amheuaeth, cysylltwch â'r Uned Rheoli Cymorthdaliadau i'ch helpu gyda'ch asesiadau.

Mae diffiniad o SPEI a gwybodaeth am sectorau sensitif ar gael ar y dudalen nesaf.

WG46524

**Diffiniad o SPEI**

Gall cymorth ar gyfer gwasanaethau a ddarperir er budd y cyhoedd na fyddai fel arfer yn cael eu darparu, neu na fyddai'n cael eu darparu ar y telerau sy'n ofynnol, o dan amodau arferol y farchnad fod yn SPEI.

**Sectorau sensitif**

Mae'r gweithgareddau canlynol yn sensitif neu'n destun amodau ychwanegol, os ydych chi'n bwriadu rhoi cymorth yn unrhyw un o'r achosion hyn dylech gysylltu â'r Uned Rheoli Cymorthdaliadau.

Mae'r gweithgareddau canlynol wedi'u gwahardd ac ni ellir eu cefnogi:

- Gwarantau anghyfyngedig
- Cymorth yn seiliedig ar berfformiad allforio
- Cymorth sy'n gofyn am ddefnyddio nwyddau/gwasanaethau domestig h.y. 'cymorthdaliadau cynnwys lleol'.

Mae cymorth ar gyfer adleoli o un ardal yn y DU i un arall hefyd wedi ei wahardd ac eithrio mewn amgylchiadau penodol iawn.

Rhaid hefyd asesu cymorth sy'n gysylltiedig ag ynni a'r amgylchedd yn erbyn egwyddorion pwrpasol ychwanegol.

Mae'r sectorau canlynol yn 'sensitif':

- Gweithgynhyrchu haearn a dur sylfaenol a ffero-aloion (cod Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) 24.10)
- Cynhyrchu alwminiwm (cod SIC 24.42)
- Cynhyrchu copr (cod SIC 24.44)
- Gweithgynhyrchu cerbydau modur (cod SIC 29.10)
- Adeiladu llongau a strwythurau arnofiol (cod SIC 30.11)
- Gweithgynhyrchu beiciau modur (cod SIC 30.91)
- Gweithgynhyrchu awyrennau a llongau gofod a pheiriannau cysylltiedig (cod SIC 30.30)
- Cynhyrchu trydan (cod SIC 35.11).

Mae cymorth ar gyfer achub neu ailstrwythuro 'Mentrau Gwael neu Ansolfent' hefyd yn destun amodau arbennig.

Cofiwch: os oes gennych unrhyw amheuaeth, cysylltwch â'r Uned Rheoli Cymorthdaliadau i'ch helpu gyda'ch asesiadau.

WG46524